TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# HNC Peirianneg Fecanyddol



**Yn gryno**

Cafodd yr HNC Peirianneg Fecanyddol Lefel 4 ei gynllunio mewn ymgynghoriad â'r diwydiant gyda'r bwriad o gysylltu â'r diwydiant lleol cymaint â phosibl, yn ei gyd-destun yn ogystal ag yn y dull mynychu.

Y nod yw creu peiriannydd gwybodus a chymwys tu hwnt a fydd yn bodloni gofynion y byd gwaith. Mae hon yn rhaglen alwedigaethol arbenigol sydd â phwyslais cryf ar waith.

Mae'r cwrs yn cynnig sylfaen gadarn yn y prif gysyniadau a sgiliau ymarferol sydd eu hangen yn y sector, ac mae'n cael ei gydnabod yn genedlaethol gan gyflogwyr, yn ogystal â chaniatáu astudiaeth bellach ar lefel gradd a thu hwnt.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...y rheiny sydd eisiau gyrfa mewn Peirianneg, Dylunio, Gweithgynhyrchu neu Gynnal a Chadw

...myfyrwyr sydd â diddordeb mewn dylunio a gweithgynhyrchu peiriannau gwres, systemau electro niwmatig a hydrolig, injan jet, cerbydau, rocedi ac awyrennau

...myfyrwyr sy’n ffafrio cyrsiau galwedigaethol, ymarferol

...unigolion rhifog, creadigol sy’n gallu cymell eu hunain

**Cynnwys y cwrs**

Mae'r cwrs yn cynnig sylfaen gadarn yn y prif gysyniadau a sgiliau ymarferol sydd eu hangen yn y sector.

Byddwch yn astudio unedau, gan gynnwys:

Blwyddyn 1

Dylunio Peirianneg
Mathemateg Peirianneg
Gwyddoniaeth Beirianneg
Egwyddorion Mecanyddol

Blwyddyn 2

Rheoli Prosiect Peirianneg Proffesiynol
Deunyddiau, Eiddo, a Phrofi
Hanfodion Thermodynameg a Pheirannau Gwres
Systemau electro niwmatig a hydrolig

Byddwch yn dysgu drwy gyfuniad o ddarlithoedd, tiwtorialau a gweithdai ymarferol.

Asesiad

Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu drwy waith cwrs ac ambell arholiad.

**Gofynion Mynediad**

Fel rheol byddai angen o leiaf un o'r canlynol arnoch chi:

Proffil Teilyngdod / Teilyngdod BTEC Lefel 3 perthnasol
CC ar Lefel A.
Graddau CC ar Lefel A ynghyd â C mewn Bagloriaeth Cymru

Hefyd: Pas TGAU mewn tri phwnc ar radd C neu'n uwch i gynnwys mathemateg ac Iaith Saesneg (neu gyfwerth).

Bydd myfyrwyr aeddfed sydd â phrofiad perthnasol yn y diwydiant nad ydynt yn cwrdd â'r cymwysterau academaidd yn cael eu hystyried yn unigol trwy gyfweliad.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Wedi i chi gwblhau'r cwrs, gallwch fynd ymlaen i HND Lefel 5 mewn Peirianneg Fecanyddol neu flwyddyn gyntaf/ail flwyddyn rhaglen gradd prifysgol.

Fel arall, gallwch symud ymlaen i swyddi technegwyr peirianneg.

Byddwch yn mynd i'r coleg am wyth awr yr wythnos, 30 wythnos y flwyddyn.